Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd** : | Pennaeth Materion Rhyngwladol | **Lleoliad** : | Unrhyw un o brif swyddfeydd yr Urdd |
| **Adran** : | Rhyngwladol | **Cyflog** : | Gweithredol 8: £47,695 - £52,879 y flwyddyn pro rata |
| **Oriau gwaith** : | Rhan amser, 2.5 diwrnod yr wythnos (17.5 awr) | **Cytundeb** : | Dros dro, hyd at 31 Awst 2027 |
| **Yn adrodd i** : | Prif Weithredwr | **Rheolaeth llinell** : | Swyddog Rhyngwladol |

**Prif bwrpas y swydd**:

Arwain ar ddatblygu a gweithredu gweledigaeth a strategaeth ryngwladol yr Urdd, gan sicrhau arweinyddiaeth effeithiol o raglenni, partneriaethau a chyfleoedd rhyngwladol sy'n hyrwyddo cenhadaeth, gwerthoedd ac enw da'r Mudiad yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

---

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**:

1. Gweithredu strategaeth ryngwladol yr Urdd.

2. Yn unol â amcanion strategol gwaith Rhyngwladol yr Urdd, arwain ar gynllunio a gweithredu prosiectau, gan oruchwylio cyllidebau, adnoddau a staffio.

3. Arwain y berthynas gyda Adran Ryngwladol LLC a phartneriaid rhyngwladol strategol Cymru gan gynnwys mynychu cyfarfodydd, fforymau rhyngwladol ac ysgrifennu adroddiadau.

4. Paratoi a chyflwyno ceisiadau ariannol blynyddol i Adran Ryngwladol LLC.

5. Ymateb i geisiadau gan Adran Ryngwladol LLC a darparu cyflwyniadau a chynrychiolaeth swyddogol ar ran yr Urdd.

6. Arwain ar raglen Taith.

7. Cynrychioli'r Urdd ar Academi Heddwch Cymru a chyfrannu at waith a chyfarfodydd y corff.

8. Cynrychioli'r Urdd yng Ngrŵp Trawsbleidiol Rhyngwladol Senedd Cymru.

9. Mynychu cyfarfodydd a chyfrannu tuag at ceisio sicrhau bod yr Urdd yn bartner yng nghyllideb Erasmus o 26/27 ymlaen.

10. Denu a pharatoi ceisiadau grantiau newydd mewn cydweithrediad gyda Pennaeth Polisïau, Grantiau a Llywodraethu'r Urdd.

11. Cyflwyno cyflwyniadau a briffiau i bartneriaid ac ymwelwyr rhyngwladol.

12. Arwain ar waith blynyddol Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd.

13. Cymeradwyo Asesiadau Risg a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu perthnasol.

14. Gweithredu fel Rheolwr ar ddyletswydd yn ystod teithiau rhyngwladol.

15. Paratoi adroddiadau gwerthuso gyda staff wedi pob taith rhyngwladol.

16. Cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ar gyfathrebu rhyngwladol.

17. Creu adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r bwrdd ymddiriedolwyr.

---

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*

| **Hanfodol**: | **Dymunol**: |
| --- | --- |
| 1. Dealltwriaeth o faterion rhyngwladol, datblygu partneriaethau a chydweithio trawsddiwylliannol.<br>2. Gallu i adeiladu, cynnal a datblygu partneriaethau strategol gyda rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.<br>3. Profiad o gynrychioli sefydliad mewn cyfarfodydd lefel uchel, digwyddiadau a fforymau allanol.<br>4. Gallu profedig i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n cyflawni amcanion sefydliadol.<br>5. Sgiliau cryf mewn rheoli prosiectau cymhleth, gan gynnwys cynllunio, | |

monitro a gwerthuso.

6. Gallu i wneud penderfyniadau strategol a gweithredol effeithiol mewn amgylchiadau cymhleth.
7. Sgiliau cryf mewn rheoli cyllidebau ac adnoddau, gan sicrhau gwerth am arian.
8. Gallu safonol i gyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg yn ysgrifenedig ac ar lafar
9. Sgiliau arweinyddiaeth a rheoli pobl rhagorol, gyda'r gallu i ysgogi, datblygu a chefnogi staff.
10. Dealltwriaeth o waith yr Urdd yn rhyngwladol a'r ymrwymiad i gynrychioli a hyrwyddo gwerthoedd y mudiad gan weithredu fel llysgennad effeithiol ar ei ran.

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd**: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Gorffennaf 2027 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**Gofynion**: Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus berchnogi'r holl rinweddau o Egwyddorion Gweithio i'r Urdd trwy gydol eu cyflogaeth.

**Gwiriadau Perthnasol**: O bosib bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) oherwydd y lleoliad gwaith.